# Datblygu a rhedeg prosiectau cymunedol ar y Argyfwng hinsawdd a Natur

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

WWF

# Cyflwyniad gan Iola Ynyr





Gall cynllunio prosiect sydd ynghlwm â'r argyfwng hinsawdd a natur godi ofn gan ei fod yn faes mor eang ond meddyliwch am eich prosiect fel creu cymuned greadigol newydd sbon. Er ei fod yn ymddangos yn gam bach, mae ei botensial yn ddi-ben-draw yn hau hadau ddaw â newidiadau pell gyrhaeddiol. Gall unrhyw gyswllt cadarnhaol a chreadigol a wneir rhwng unigolion a'r tir, fel rhwydwaith mycelium, ymddangos yn gudd ar y dechrau. Ond yn anochel bydd yn cyfoethogi bywydau, cyfathrebu a chymunedau.

Peidiwch â dibrisio camau bach. Gall deimlo yn 'anodd' i'w ddatblygu, yn enwedig os yw prosiectau creadigol yn anghyfarwydd i unigolion a chymunedau. Yn y prosiectau ar lawr gwlad, mae unigolion yn aml yn gweld eu hunain , a'i gilydd, mewn goleuni cadarnhaol am y tro cyntaf ers cyfnod maith. Mae ei ddylanwad yn gallu ysbrydoli newid mewn uchelgais, rhoi caniatád i ddychmygu yn fwy ac i annog cyfranogwyr gymryd perchnogaeth o'u twf personol ac i ddiogelu eu hamgylchfyd.

Synhwyrwch dirwedd y gymuned newydd hon. Byddwch yn sensitif i syniadau sy'n ennyn chwilfrydedd. Ymchwiliwch i'r unigolion sydd yn hwyluso cyfleon ag sydd wedi ennyn ymddiriedaeth y gymuned a byddwch yn barod i ofyn am gyngor. Ond yn bennaf oll, gwrandwch ar y lleisiau sydd yn sibrwd, y rhai sydd yn dal i gario negeseuon y tir.

## Pwyntiau i'w hystyried

**Adnabod y gymuned rydych chi am weithio gyda hi**

Mae newid hinsawdd a'r heriau sydd ynglwm â hynny yn effeithio arnom i gyd ac yn dylanwadu ar ein amodau byw a'n llesiant. Dywedir bod yr effaith hwn i'w deimlo gryfaf ar gymunedau mwyaf bregus y byd er mai'r cymunedau, yn amlach na pheidio, sydd yn niwedio lleiaf ar yr amgylchedd naturiol.

## Gofynnwch i'ch hun:

Sut fydd y prosiect yn grymuso cymunedau bregus?

Sut mae eich prosiect yn cynnwys neu'n eithrio cymunedau anodd eu cyrraedd?

**Deall cyfiawnder hinsawdd a natur**

Mae cyfiawnder hinsawdd a natur yn ystyriaeth ychwanegol y mae'n rhaid ei blaenoriaethu wrth ddatblygu prosiect ymwybodol. Mae cydnabod bod newid hinsawdd a natur yn effeithio ar gymunedau brodorol, diwylliannau bygythiol, ac yn arwain at golli dealltwriaeth a chydnabyddiaeth o'r tir drwy golli iaith yn ffordd o roi caniatâd i ni alaru'r golled a dychmygu ffyrdd newydd o amddiffyn.

Gall y cydnabod hwn sicrhau ein bod yn gosod ein prosiect mewn cyd-destun diwylliannol a chelfyddydol rhyngwladol, yn arbennig, fel yng Nghymru,lle mae heriau i'n iaith leiafrifol. Mae'n talu gwrogaeth i ddiwylliannau coll y byd tra hefyd yn ystyried sut fyd rydym am sicrhau i'r cenedlaethau sydd heb gael eu geni eto, fod yna gymryd cyfrifoldeb am ein ffordd o fyw a magu parch tuag at ddiogelu byd gofalgar a heddychlon.

## Gofynnwch i'ch hun:

Sut mae'r prosiect yn newid ymwybyddiaeth o gyfiawnder hinsawdd?

**Cysylltu'r argyfwng hinsawdd a natur â lles**

Gall meithrin arferion i gynnal ein llesiant o fewn y prosiect gefnogi cyfranogwyr i ymdopi gyda heriau yn gyffredinol. Gall cynnydd mewn hunanwerth wella ymgysylltiad o fewn teuluoedd, hyrwyddo cyfleon gwaith, creu uchelgais i weld y gorau yn ein hunain ac i gychwyn hyfforddiant a mynediad i addysg bellach. Mae cyswllt clir rhwng ein llesiant a'n gallu i ddylanwadu ar ein dyfodol personol, cymunedol ac amgylcheddol.

Wrth gynyddu ein hunanwerth yn greadigol, gallwn weld bod ein dychymyg yn ein cefnogi i effeithio eraill a'u hysbrydoli . Mae ein lleisiau creadigol yn gwneud gwahaniaeth ac o'r herwydd yn treiddio i'n hymddygiad, i'n penderfyniadau ac i'n dull o weld y byd. Pan rydym yn teimlo ar ein gorau, rydym yn gwneud y penderfyniadau gorau ar gyfer ein hunain, eraill a'r byd naturiol.

## Gofynnwch i'ch hun:

Pa strategaethau o fewn y prosiect sydd yn ymwneud yn uniongyrchol gydag ymdopi a lleddfu gorbryder ynghlwm â newid hinsawdd?

Sut mae eich prosiect yn grymuso cyfranogwyr i wireddu eu cryfderau eu hunain yn ogystal â chryfderau eraill?

A oes unrhyw agweddau diwylliannol ar y gymuned neu'r cyfranogwyr y dylech fod yn ymwybodol ohonynt?

**Cysylltu â sefydliadau**

Mae'n bwysig ein bod yn ffurfio cyswllt â sefydliadau lleol sy'n gweithio'n benodol ar newidiadau hinsawdd a natur lleol i gefnogi a chryfhau ein prosiect. Gall yr adnoddau a chysylltiadau sydd ganddynt ein cyflwyno i rwydweithiau lleol o fewn ardal y prosiect er mwyn cryhau'r ymgyrch i recriwtio cyfranogwyr ynghyd ag adeiladu ar waddol i'r prosiect. Gall unigolion barhau i weithredu i gefnogi'r hinsawdd wedi i'r prosiect gwblhau.

Sicrhewch eich bod yn rhannu gweledigaeth y prosiect mewn modd cryno ond sydd yn cyfleu eich gweledigaeth gyfan. Gwahoddwch y mudiad i gyfrannu sesiwn ymarferol i'r prosiect neu i fynychu sesiynau creadigol a chynhwyswch nhw yn y dathlu ar ddiwedd y prosiect.

## Gofynnwch i'ch hun:

Sut mae eich prosiect yn cefnogi blaenoriaethau mudiadau a sefydliadau sydd eisioes yn bodoli?

**Meddwl yn ymarferol**

Gyda phrosiect 'Gwledda' cafwyd sesiwn ar gychwyn y prosiect gyda Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru lle'r oedd y cyfranogwyr yn plannu coed ar dir yr ysgol gyda'u plant. Roedd y palu, rhyddhau'r coed o'u potiau a selio'r gwreiddiau yn y pridd yn fodd ymarferol o osod bwriad y prosiect. Roedd y coed yn tystio i'r newid oedd wedi digwydd i'r cyfranogwyr; y twf yn eu perthynas gyda'r amgylchfyd, y meithrin sgiliau newydd a'r cynnydd yn eu hunanwerth ac effaith hynny ar dirwedd naturiol y gymuned.

## Gofynnwch i'ch hun:

Pa mor gyson y cynhelir gweithgareddau yn yr awyr agored?

A yw'r sesiynau'n hygyrch i'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan?

Ydych chi'n hyderus wrth gyfathrebu a dod â sefydliadau gwahanol at ei gilydd?

A yw amser a lleoliad eich gweithgaredd yn addas ar gyfer pwy rydych chi eisiau gweithio gyda nhw?

Beth yw anghenion ieithyddol y cyfranogwyr? Oes modd goresgyn heriau trwy gydweithio gyda sefydliadau cefnogol?

Sut mae datblygu perthynas ac ennill ymddiriedaeth y darpar gyfranogwyr?

## Cyngor:

Yn aml, gall cynnig paned a chacen wneud mwy i gychwyn sgwrs adeiladol na dim arall.

Mae cychwyn unrhyw brosiect creadigol newydd yn gam dewr. Gall fod yn heriol ar brydiau ond ceisiwch ymddiried yn eich gweledigaeth gan gofio bod methu yn arwain at mwy o dwf na chael llwyddiant ysgubol trwy gydol y prosiect.

Os nad yw eich gweledigaeth yn cael ei ariannu ar y cyfle cyntaf, cofiwch bod pob egin syniad yn magu ffrwyth yn y pendraw. Byddwch yn chwilfrydig yn hytrach na beirniadol o'ch hunain ac ymatebwch yn greadigol i bob cam o’r broses.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

WWF

## Darllen a Argymhellir:

cat.org.uk
www.gwyrddni.cymru
www.northwaleswildlifetrust.org.uk
www.wwf.org.uk

Braiding Sweetgrass - Robin Wall Kimmerer
Pridd - Llŷr Titus
Wintering: The Power of Rest and Retreat at difficult times- Katherine May

Gyda diolch i'r canlynol:

clare e potter
GwyrddNi
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
Ysgol Rhosgadfan

a
Lindsay Walker Photography

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

WWF